# Y MYNYDD DU

Ceir rhai ardaloedd o dir serth iawn, enwedig y clogwyni tywodfaen a ffurfiwyd ar ochrau gogleddol a dwyreiniol y copaon uchaf. Canlyniad rhewlifiant oedd y rhain yn bennaf a'u llethrau tywyll y rhesymeg y tu ôl i'r enw. Fodd bynnag, yr hyn sy'n drawiadol ar lethrau deheuol y bryniau yw'r niferoedd mawr o greigiau sy'n ymwthio allan, enwedig yr ardaloedd calchfaen ar ymylon deheuol a gorllewinol y mynydd.

**Carn Cennen SN 705188**

Mae Carn Cennen i'w ganfod ger tarddiad yr afon Cennen, ardal o dir corsiog a chreigiau cen. Os nad yw Cennen yn enw personol fe all ddod o hyd i ystyr arall drwy'r elfen *cen(n)-* 'croen, ffilm, pilen', yn gysylltiedig â'r Wyddeleg *cennen* 'croen'. Nodwch y gair Canol-oesol *kennen* 'anghydfod'; heddiw, gyda'r sillafiad *cynnen* 'brwydr, gwrthdaro, anhawster' isod – gweler Carreg Cennen isod.

**Carn Fatho SN 717187**

Ffurf dreigliedig y gair *batho(r)* 'pathew', sef anifail sy'n gaeafgysgu; tybed os oedd y garnedd gylchog yr Oes Efydd yn atgoffa un o'r anifail. Yr oedd Batho(r) yn llysenw ar berson diog a chysglyd hefyd. Mae Carn Oes Efydd arall gerllaw, Ngharn Pen y Clogau, efallai hwn yw'r enw cywir yr ardal.

**Carn Fawr SN 702185**

Adnabuwyd y *garnedd* 'tomen' + *mawr* ar un adeg yn garnedd o'r Oes Efydd; ni ellir dod o hyd i unrhyw olion amlwg.

**Carn Pica SN 704184**

Mae ystyr y term carn 'crug, tomen o gerrig' yn syml tra bod *pica* 'pigog, llym', yn ansoddair o'r gair *pîg* 'copa', gair a fenthycwyd o'r Saesneg Canol *pic* 'brig, copa, pigyn'. Mae safleoedd eraill gyda'r enw Carn Pica yn Ne Cymru ac maent fel arfer yn cyfeirio at nodwedd carneddol.

**Carn Powell SN 684221**

Mae'r gair carn yn y Llydaweg *karn*, Cernyweg *karn*, Gwyddeleg *carn* 'twr o gerrig' a'r Lladin *cornu* 'corn'. Ei ystyr yn y Gymraeg yw carnedd, gwyddfa, twmwlws neu domen. Fel arfer, caiff ei ddefnyddio mewn enwau bryniau a mynyddoedd ble mae (neu yn edrych yn debygol fod) tomen o gerrig garw wedi ei chodi fel beddau yn y cyfnod cyn-gristnogol.

**Carreg Cennen SN 668191**

Cofnodwyd yr enw yn gynnar oherwydd y castell, fel Karekennyl 1277, yn y Littere Wallia 1279 Karrekenyn, 1331/2 fe welir Karreckennen, ond erbyn 1413 Karekennyn oedd ei ffurf ac erbyn map Bowen 1729 Caerkennen. Mae'r castell (SN 668190) mewn safle amddiffynnol ardderchog uwch clogwyn calchfaen tua 90m mewn uchder. Tybiwyd yn y gorffennol mai enw personol yw'r Cennen, fel y'i rhoddir i'r afon Cennen a'r brigiad maen yng Ngharn Cennen (SN 705188); tebyg i enw personol Cennin, os yw hwnnw ei hun yn enw personol. Ond fe all yr elfen *cen(n)-* godi o'r gair *cen* 'croen, plisgyn, gorchydd' yn gymharol i'r Cernyweg *cen* 'croen', Hen Lydaweg *cennen* 'croen', Gwyddeleg *cennen*, Hen Wyddeleg *ceinn* 'croen', yn tarddu o'r Celteg **kend-n-* o'r gwreiddyn **(s)qen* 'hollti'; hefyd, gwreiddyn y gair skin yn y Saesneg.

Cen y Cerrig yw'r term Cymraeg am beth a elwir yn y Saesneg fel lichen, a gellid dweud mai oherwydd y cen ar y clogwyn y cafodd y graig ei henw. Fodd bynnag, oherwydd Afon Cennen, sy'n llifo allan o ardal o ucheldir a fyddai ar un adeg wedi bod â nifer o ardaloedd corsiog, enwedig ger Carn Cennen. Oherwydd enw'r afon byddai rhywun yn amau bod y cennen yn cyfeirio at y gramen a geir ar wyneb y tir corsiog gwlyb, enwedig yn yr Haf.

Mynyddoedd.co.uk

Ond, os yw'r enw yn gyfeiriad at y castell, neu amddiffynfa gynharach yn y man, rhaid nodi defnydd y gair kennen 'anghydfod' yn y Cyfreithiau Cymraeg (13 Canrif). Y sillafiad cynnen 'brwydr, gwrthdaro, anhawster' sydd ar gael heddiw. Yn aml, mae'n anodd cadarnhau cywirdeb un dehongliad dros unrhyw ddehongliad arall; hefyd, dylid bod yn agored bob amser i'r posibilrwydd y gallai ymchwil ddiweddarach ddymchwel syniadau 'sicr' gynt. Hefyd, nodwch ddefnydd y llythyren *k* gan y copïwyr i ddynodi'r llythyren Gymraeg *c*; newid a oedd yn digwydd yn aml yn y Canol-oesoedd.

**Carreg Dwfn SN 654171**
Gwelir hefyd Carregydwfn am enw'r bryn bychan; mae *carreg* 'craig, maen' yn gysylltiedig â'r Gernyweg *carrek* a'r Llydaweg *karrek* . Gall ystyr *dwfn* fel enw topograffig gyfeirio at yr ymdeimlad o ddyfnder sy'n debycach i 'ddiffwys' neu, yn syml, llethr serth. Fodd bynnag, ar fap AO 1831 Carregydwyfan yw'r enw; a'i *dwyf* 'duw' + *(m)an* 'lle' yn awgrymu safle cysegredig - cyfeiriad at garnedd o'r Oes Efydd tybed.

**Castell y Geifr SN 826166**
Nid oes *castell* 'amddiffynfa'; fodd bynnag, byddai'r haenau brigiadol enfawr o greigiau yn edrych yn debyg i amddiffynfeydd anferth. Felly disgrifydd 'doniol' sydd.

**Clogau Mawr SN 714192**
Lluosog y gair *clog* 'craig, carreg serth', cyfystyr a'r Gwyddeleg *cloch* 'maen, carreg'; mae clog yn y gair *clogwyn* 'craig' a hefyd. Mae Clogau Bach i'w gael gerllaw, yn (SN 719194); ysgrifennwyd y rhain fel Clogaumawr a Clogaubach yn AO 1831.

**Craig Cwm-Clyd SN 798295**
Y graig yw'r ceunant caregog yng nghefn y cwm bach diarffordd yn un *clyd* 'cysgodol'.

**Craig Derlwyn SN 721157**
Cyfuniad o'r gair *der(w)* 'dâr' + *llwyn* 'gwigfa, perth' sydd yn yr enw yr ardal caregog. Enw cyffredin ledled Cymru. Craig-y-derlwyn 1831 AO.

**Craig Ddu SN 797274**
*Craig* 'clogwyn' + *du* 'tywyll'; weithiau, fe elwid clogwyni yn ddu oherwydd lliw creigiau gwlyb. Yma'r rhesymeg yw agwedd Gogleddol y graig, mewn cwm bychan dwfn, yn rhoi'r creigiau yng nghysgod yr haul drwy'r dydd.

**Craig y Sawrwg SN 761194**
Wrth edrych ar fap 1831 yr AO fe welir yr enw fel Craig y 'Sgwrwg, mae hyn yn rhoi cysylltiad gyda ysgwrwg, sef ffurf lleol ar y gair *ysgorog, ysgyrog* 'celain, corff marw' yn hytrach na'r gair *sawr* 'arogl, arogledd drwg' fel elfen yn yr enw.

**Cribarth SN 831144**
Ystyron yr elfen gyntaf, sef *crib* 'cefnen'; gall yr ail elfen garth hefyd gael yr un ystyron. Weithiau ceid y math o ddyblu mewn enwau i gryfhau'r disgrifiad o'r nodwedd; mae yna gefnen amlwg yn y fan.

**Y Fagl Bengam SN 794207**
Ffurf dreigliedig y gair *bagl* 'ffon esgob' a *pengam* 'crwm'; yn union fel y mae pen ffon swyddogol Abad neu Esgob. Y tebygrwydd yw bod yna rhyw fath o fagl fel nod ar groes, bostyn neu hyd yn oed carreg, i ddangos ffin tir eglwysig.

**Y Garreg Las SN 677179**

Mynyddoedd.co.uk

*Carreg* 'craig, maen', o'r Frythoneg **carreci*-'maen'; sydd yn ôl pob tebyg wedi cael ei galw'n *(g)las* 'llwyd' oherwydd lliw'r graig galchfaen. Uwchben tarddiad Afon Llwchwr, mae llawer o ddefnydd tir cyn-hanesyddol yn digwydd yn y dirwedd. Ceir anheddiad, nifer o gylchoedd cytiau, systemau caeau, clostiroedd a thomenni. Byddai'r ardal wedi'i gweld fel llecyn sych a deniadol, islaw'r rhostir agored ond uwchlaw'r dyffrynnoedd llaith a choediog. Carreg Las 1832 AO.

**Y Garreg Lwyd SN 738171**
Mae ffurf dreigliedig y gair llwyd yn yr enw, unwaith eto yn cyfeirio at liw'r graig galchfaen. Efallai mai carnedd neu garreg nod oedd oedd y nodwedd.

**Crug Glas SN 689239**
*Crug* 'garnedd, twmpath' + *glas* 'llwydwyrdd', yn agos at fryngaer Y Gaer Fawr. Bryngaer eang a welwyd defnydd yn eithaf diweddar yn ei hanes; hefyd, mae carnedd o'r Oes Efydd ar y llethrau y tu allan i'r fryngaer. Mae'r gair crug yn gytras â'r Hen Gernyweg *cruc*, Llydaweg *cruc*, Hen Wyddeleg *cruach* 'crug, carnedd'.

Mynyddoedd.co.uk